



SUT MAE'R DYDDIADUR HWN YN GWEITHIO?

Mae'r dyddiadur hwn wedi'i ddylunio'n arbennig i'ch helpu i redeg eich busnes yn effeithiol. Mae'n cynnwys:

- tudalennau dyddiadur wythnosol
- gwiriadau i'w cynnal bob dydd wrth agor a chau
- adolygiad 4 wythnos
- cofnod hyfforddi staff
- rhestr o gyflenwyr
- amserlen lánhau

Dylai'r rheolwr lofnodi'r dyddiadur bob dydd i ddweud ei fod wedi:

- cynnal y gwiriadau agor a chau
- dilyn eich dulliau diogel

Dylai gymryd **rhyw funud bob dydd** i lenwi'r dyddiadur, oni bai bod gennych rywbeth arbennig i'w nodi.

Os bydd unrhyw beth **gwahanol** yn digwydd neu os aiff **pethau o chwith**, dylech nodi beth ddigwyddodd a sut yr aethoch i'r afael â'r sefyllfa yn y dyddiadur. Drwy wneud hyn, byddwch yn gallu dangos eich bod wedi cymryd camau i sicrhau bod bwyd yn ddiogel i'w fwyta.

Os nad yw'r rheolwr yn gweithio, gall drosglwyddo'r cyfrifoldeb am y dyddiadur i aelod arall o staff. Darllenwch y dull diogel 'Hyfforddiant a goruchwyliaeth' yn yr adran Rheoli.

ADOLYGIAD 4 WYTHNOS

Mae'r adolygiad 4 wythnos yn gyfle i chi edrych yn ôl ar wythnosau blaenorol a nodi unrhyw broblemau parhaus. Ysgrifennwch fanylion y rhain a sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â nhw. Efallai y bydd angen i chi hyfforddi staff eto ar rai dulliau diogel a/neu newid eich ffordd o weithio.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi ddarllen yr adolygiad 4 wythnos cyn dechrau defnyddio'r dyddiadur. Bydd yn rhoi syniad i chi o'r math o bethau y bydd angen i chi eu nodi yn ystod yr wythnos.

GWIRIADAU AGOR A CHAU

Mae'n hanfodol eich bod chi a'ch staff yn cynnal rhai gwiriadau penodol bob tro yr ydych yn agor a chau. Sicrhewch eich bod wedi darllen y dull diogel 'Gwiriadau agor a chau' yn yr adran Rheoli.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi ddefnyddio'r rhestr ganlynol o wiriadau agor a chau bob dydd (tudalen nesaf).



GWIRIADAU AGOR

Dylech gynnal y gwiriadau hyn ar ddechrau'r dydd. Gallwch hefyd ychwanegu eich gwiriadau eich hun at y rhestr.

Mae eich oergelloedd, eich offer arddangos bwyd wedi'i oeri a'ch rhewgelloedd yn gweithio'n iawn.

Mae pob darn arall o offer (e.e. popty) yn gweithio'n iawn.

Mae eich staff yn iach i weithio ac yn gwisgo dillad gwaith glân.

Mae ardaloedd paratoi bwyd yn lân ac wedi'u diheintio (arwynebau bwyd, offer, cyfarpar ac ati).

Mae pob ardal yn rhydd rhag tystiolaeth o blâu.

Mae digon o ddeunyddiau golchi dwylo a glanhau (sebon, tywelion papur, cadachau ac ati).

Mae dŵr tap poeth ar gael ym mhob sinc ac ym mhob basn golchi dwylo.

Mae'r thermometr prôb yn gweithio ac mae 'wipes' ar gael ar gyfer y prôb.

Mae gwybodaeth am alergenau yn gywir ar gyfer pob eitem sydd ar werth.

GWIRIADAU CAU

Dylech gynnal y gwiriadau hyn ar ddiwedd y dydd. Gallwch hefyd ychwanegu eich gwiriadau eich hun at y rhestr.

Mae'r holl fwyd wedi'i orchuddio, ei labelu a'i roi yn yr oergell/rhewgell (lle bo'n briodol).

Rydych wedi taflu bwyd sydd ar ei ddyddiad 'Defnyddio Erbyn'.

Mae offer glanhau budr wedi'i lanhau neu ei daflu.

Mae staff wedi cael gwared ar unrhyw wastraff ac mae bagiau newydd yn y biniau.

Mae ardaloedd paratoi bwyd yn lân ac wedi'u diheintio (arwynebau gwaith, offer ac ati.)

Mae'r holl waith golchi llestri wedi'i orffen.

Mae'r lloriau wedi'u sgubo ac yn lân.

Mae gwiriadau 'Profi' wedi'u cofnodi.

GWIRIADAU YCHWANEGOL

Caiff gwiriadau ychwanegol eu cynnal yn llai aml na'r gwiriadau agor a chau. Edrychwch ar y dull diogel 'Gwiriadau ychwanegol' yn yr adran Rheoli. Mae blwch ar ddiwedd pob wythnos ar dudalennau'r dyddiadur i chi nodi unrhyw wiriadau ychwanegol.